



COFNOD PENDERFYNIADAU COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU DE CYMRU

AWST 2025 i CHWEFROR 2026

Dyddiad	Cais am Benderfyniad	Gwybodaeth Ategol	Cymeradwywyd / Gwrthodwyd
14 Awst 2025	Eiddo yn lle Tŷ Nodor	Ym mis Chwefror 2025, cyflwynodd y landlord y cymal terfynu yn y cytundeb les yn rhoi rhybudd ffurfiol bod angen i Heddlu De Cymru adael yr eiddo erbyn mis Awst 2026. Daethpwyd o hyd i gyfleuster newydd i letya'r staff a'r holl ofynion storio am gost o £190,000 y flwyddyn.	Cymeradwywyd
14 Awst 2025	Swyddog Cymorth Prosiect a Pholisi Uned Atal a Lleihau Trais	Bydd y rôl a ariennir gan Grant y Swyddfa Gartref yn darparu cymorth prosiect a pholisi dynodedig i sicrhau trefniadau cynllunio, darparu a monitro effeithiol o weithgarwch sy'n seiliedig ar le wedi'i anelu at fynd i'r afael â thrais difrifol, ymddygiad gwrthgymdeithasol a niwed cymunedol.	Cymeradwywyd
11 Medi 2025	Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu Uned Atal a Lleihau Trais	Bydd y swydd hon am gyfnod penodol o 12 mis yn helpu'r Uned Atal Trais i gyflawni gweithredoedd mewn perthynas â'r Cynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder, gan ganolbwyntio ar ymgysylltu a chyfathrebu sy'n berthnasol i atal troseddau a lleihau trais.	Cymeradwywyd
22 Medi 2025	Cais am Gyllideb Cyfathrebu ac Ymgysylltu wedi'i Ddiwygio	Cais am gynnig cyllideb wedi'i ddiwygio mewn perthynas â diwygio gweithgareddau Cyfathrebu ac Ymgysylltu gan gynnwys gwaith digidol/creu cynnwys. Bydd hyn yn cefnogi dyletswyddau statudol y Comisiynydd i ymgysylltu â'r cyhoedd a	Cymeradwywyd



		mynd i'r afael yn rhannol â mater thematig yn y Cynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder mewn perthynas â chynhwysiant a hygyrchedd.	
22 Medi 2025	Adnodd Cynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder i Blant a Phobl Ifanc	Bydd y cynnig cyllido 2 flynedd hwn yn cefnogi'r gwaith o gydlynu a darparu Cynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder i Blant a Phobl Ifanc.	Cymeradwywyd
22 Medi 2025	Gwasanaethau a Gomisiynwyd ar gyfer Defnyddio Sylweddau	Bydd y contract ar gyfer y Gwasanaeth Ymyrryd ar gyfer Troseddwr sy'n Camddefnyddio Sylweddau a ddarperir gan Dyfodol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2026. O fis Ebrill 2026, caiff gwasanaethau ym myrddau iechyd Cwm Taf Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro eu hariannu ar y cyd gan Heddlu De Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi. Bydd hyn am gyfnod o bum mlynedd.	Cymeradwywyd
4 Tachwedd 2025	Pecyn Cynnal a Chymorth ar gyfer Gwefan Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	Caiff y wefan ei chynnal a'i chefnogi gan Everglow, a disgwylir adnewyddu'r pecyn cymorth blynyddol ym mis Rhagfyr 2025. Argymhellir cynnal yr un lefel o gymorth gwasanaeth, sicrwydd diogelwch a diogelwch am gysondeb ar gost flynyddol o £2,695 gyda chynhaliaeth VPS a rennir am £770 y flwyddyn.	Cymeradwywyd
13 Chwefror 2026	Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu Yn Erbyn Menywod (CEDAW)	Bydd dirprwyaeth gan y Cynhedloedd Unedig ar gyfer y Confensiwn hwn yn ymweld â Chymru ym mis Mawrth 2026 ac mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wedi bod yn eu cefnogi drwy gyfrannu £1,500. Bydd y Gynhadledd hon yn rhoi cyfle i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu dynnu sylw at waith Plismona yng Nghymru i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail rhywedd a thrais yn erbyn menywod a merched.	Cymeradwywyd



Comisiynydd
yr Heddlu a
Throseddau
De Cymru

South Wales
Police
and Crime
Commissioner

17 Chwefror 2026	Cynigion Dylunio Caerdydd Canolog	Mae cynlluniau a map ffordd Caerdydd Canolog yn dangos modd o gael cyfleuster gwell a fydd yn gwasanaethu swyddogion heddlu gweithredol a'r economi liw nos.	Cymeradwywyd
------------------	-----------------------------------	--	--------------